

Strategaeth Gwasanaeth y Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf 2019/21

Y Weledigaeth ar gyfer Llyfrgelloedd yn Rhondda Cynon Taf – Cefnogi pobl a chymunedau i gyflawni hyd gorau eu gallu.

Cyd-destun

Mae gwasanaeth y llyfrgelloedd yn wasanaeth statudol. Mae Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu gwasanaeth llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon'. Mae gwasanaethau'r llyfrgelloedd yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru trwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Yn 2017/18, bodlonodd Rhondda Cynon Taf bob un o'r 12 hawl craidd yn llawn. O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, cyflawnodd Rhondda Cynon Taf 5 yn llawn, 1 yn rhannol a methodd â chyflawni 4. Mae Adroddiad Asesiad llawn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r pwysau ariannol y mae awdurdodau lleol wedi eu profi yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod rhaid i wasanaeth y llyfrgelloedd adolygu pob agwedd ar yr hyn y mae'n ei gynnig i sicrhau ei fod yn:

- parhau i fod yn berthnasol mewn oes sy'n gynyddol dechnolegol
- darparu mynediad i amrywiaeth o gyfleoedd y mae eu hangen ar drigolion
- croesawu newid ac yn mabwysiadu dull arloesol wrth ddatrys problemau er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth yn addas at y diben yn y tymor hir

Er gwaethaf y pwysau ar gyllid awdurdodau lleol ledled Cymru, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cynnal model cymysg o ran cyflenwi'r gwasanaeth, sy'n cynnwys:

- 3 Llyfrgell Ardal
- 10 Llyfrgell Gangen
- Darpariaeth llyfrgell symudol wedi'i hailfodelu yn ddiweddar
- Gwasanaeth llyfrgell yn y cartref
- Gwasanaeth y llyfrgelloedd i Ysgolion sy'n cynnig gwasanaeth benthyca a chynghori i bob ysgol gynradd. Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifainc sy'n datblygu rhaglenni a gweithgareddau sy'n hyrwyddo darllen a llythrennedd gwybodaeth ymysg pobl ifainc

Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn cefnogi strategaethau corfforaethol y Cyngor ac yn cyfrannu at y blaenoriaethau strategol sy'n cael eu nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor – Y Ffordd Ymlaen 2016-2020:

Economi – adeiladu economi gref

Pobl – hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb

Lleoedd – creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn cael ei lywio ar bob cam gan themâu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn 'Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol,' Chweched Fframwaith

Ansawdd Llyfrgelloedd Cymru 2017/20', lle caiff awdurdodau lleol eu hannog i sicrhau bod modd i'r cyhoedd elwa ar:

- mynediad at fannau llyfrgelloedd cyhoeddus addas a phriodol drwy ddarpariaeth y gwasanaeth
- ystod addas a phriodol o ddeunyddiau a gweithgareddau sydd ar gael
- darpariaeth o ddigon o staff a gweithlu medrus
- buddsoddiad cyfalaf digonol mewn adeiladau, TGCh effeithiol a systemau rheoli effeithlon ar gyfer gwasanaeth y llyfrgelloedd y maen nhw'n eu defnyddio

Mae llyfrgelloedd hefyd yn chwarae rôl allweddol wrth gynorthwyo'r awdurdod lleol i fodloni'r 7 nod llesiant sy'n cael eu nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gweledigaeth

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf yn adlewyrchu'r Cynigion Cyffredinol a gafodd eu datblygu gan Gymdeithas y Prif Lyfrgellwyr ar gyfer gwasanaethau'r llyfrgelloedd.

DIGIDOL: Sicrhau bod y blwch rhwng y rheiny sy'n cyrchu gwybodaeth yn rheolaidd ar-lein a'r rhai sy ddim yn lleihau.

DARLLEN: Helpu i greu cymdeithas fwy llythrennog a hyderus trwy ddatblygu, cyflwyno a hyrwyddo gweithgareddau darllen yn y llyfrgell.

IECHYD: Helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u lles.

GWYBODAETH: Sicrhau bod holl ddefnyddwyr y llyfrgelloedd yn cael cymorth i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau ar-lein o ansawdd mewn meysydd allweddol fel gyrfaoedd, iechyd, cyllid personol a budd-daliadau.

DYSGU: Sicrhau bod llyfrgelloedd yn rhan o bob cam o daith ddysgu unigolion er mwyn magu hyder, helpu ag addysg, cynyddu creadigrwydd a gwella sgiliau digidol.

DIWYLLIANT: Sicrhau bod llyfrgelloedd ar gael i gynnig profiadau ac achlysuron diwylliannol amrywiol i fwy o bobl, yn enwedig y rhai sy'n llai tebygol o gymryd rhan neu gymryd diddordeb yn y celfyddydau a diwylliant.

Gwasanaeth y Llyfrgelloedd 2017/8

Pobl yn ymweld â llyfrgelloedd – 799,101 o ymwelwyr

Aelodau'r llyfrgelloedd – 65,031 o aelodau

Benthyciadau o lyfrau a deunyddiau eraill – 439,094 o fenthyciadau

Oriau gwirfoddoli – 2,442 awr

% y defnydd o gyfrifiaduron ar gyfer y Cyhoedd – 24%

Defnydd o Wi-Fi (oriau) – 881,070 awr

Oriau agor cyfartalog bob wythnos – 524 awr
% boddhad defnyddwyr â'r gwasanaeth – 96%

Blaenoriaethau allweddol

- sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn berthnasol mewn byd sy'n newid yn gyflym
- sicrhau bod modelau newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn dod yn rhan annatod o'r ddarpariaeth
- gwella profiad y llyfrgelloedd i ddefnyddwyr

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn bydd y gwasanaeth yn:

- gwella'r rhaglen o roi adnoddau ar-lein fel bod modd i ddefnyddwyr chwilio am gasgliadau, eu darllen a'u defnyddio ar unrhyw adeg
- gwneud y gorau o ddatblygiadau TG newydd er mwyn gwella profiad defnyddwyr mewn llyfrgelloedd arferol, symudol ac yn y cartref
- sicrhau bod gyda'r holl staff y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth sy'n parhau i fod yn berthnasol mewn byd sy'n newid yn gyflym o ran arloesedd technolegol ac arferion defnyddwyr, a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar sut mae pobl am ddefnyddio'r gwasanaeth
- buddsoddi mewn gwelliannau seilwaith gan gynnwys cydleoli gyda gwasanaethau eraill mewn canolfannau cymunedol
- sicrhau bod modelau newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn dod yn rhan annatod o'r ddarpariaeth a monitro adborth defnyddwyr i sicrhau eu bod yn cyrraedd y nod
- sicrhau bod modd i drigolion gael gafael ar ystod eang o gyfleoedd dysgu
- gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ystod ehangach o wybodaeth, cyngor a chymorth ar iechyd a lles
- gweithio gyda phartneriaid a gwirfoddolwyr yn y sectorau treftadaeth, y celfyddydau a diwylliant i ddatblygu ystod o weithgareddau diwylliannol

Deilliannau ac effeithiau

Bydd y gwasanaeth yn gweithio tuag at sicrhau'r deilliannau a'r effeithiau canlynol:

- Bydd modd i bobl wella eu gwybodaeth/sgiliau ar ôl defnyddio'r llyfrgell
- Bydd modd i bobl gymryd rhan mewn achlysuron darllen a diwylliannol eraill sy'n cael eu trefnu gan y llyfrgell o'u dewis nhw
- Bydd pobl yn teimlo'n rhan o gymuned wrth ddefnyddio gwasanaeth y llyfrgelloedd
- Bydd modd i bobl manteisio ar gyfleoedd digidol trwy ddefnyddio'r llyfrgell
- Bydd iechyd a lles personol yn gwella trwy ddefnyddio'r llyfrgell
- Bydd modd i bobl chwarae rhan fwy mewn materion lleol drwy'r cyfleusterau yn y llyfrgell